



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Ioan 21: 15-25



- 1 Ar ôl iddo atgyfodi dyma Iesu'n ymddangos i'w ddisgyblion eto wrth Lyn Tiberias.



- 2 Dyma Iesu'n troi at Simon Pedr a dweud, "Simon fab Ioan, wyt ti wir yn fy ngharu i fwy na'r rhain?"



- 3 "Ydw, Arglwydd," atebodd, "rwyf ti'n gwybod mod i'n dy garu di." Dwedodd Iesu wrtho, "Gofala am fy ŵyn."



- 
- 4 Yna gofynnodd Iesu eto,  
"Simon fab Iona, wyt ti  
wir yn fy ngharu i?"



- 
- 5 Dwedodd Pedr eto,  
"Ydw, Arglwydd, rwyd  
ti'n gwybod mod i'n dy  
garu di." Meddai Iesu,  
"Arwain fy nefaid."



- 
- 6 Yna gofynnodd Iesu  
iddo'r drydedd waith,  
"Simon fab Iona, wyt ti'n  
fy ngharu i?"



- 
- 7 Roedd Pedr yn ddigalon  
fod Iesu wedi gofyn eto'r  
drydedd waith, "Wyt ti'n  
fy ngharu i?"  
"Arglwydd," meddai,  
"rwyd ti'n gwybod pob  
peth; rwyd ti'n gwybod  
mod i'n dy garu di."



- 
- 8 Yna dwedodd Iesu,  
"Gofala am fy nefaid.  
Cred di fi, pan oeddet  
ti'n ifanc roeddet yn  
gwisgo ac yn mynd i ble  
bynnag oeddet ti eisiau;  
ond pan fyddi'n hen  
byddi'n estyn allan dy  
freichiau, a bydd rhywun  
arall yn dy rwymo di ac  
yn dy arwain i rywle  
dwyd ti ddim eisiau  
mynd." (Dwedodd Iesu  
hyn i ddangos sut roedd  
Pedr yn mynd i  
anrhydeddu Duw trwy  
farw.)



- 
- 9 Yna dyma Iesu'n dweud wrtho, "Dilyn fi."



- 
- 10 Gofynnodd Pedr i Iesu beth fyddai'n digwydd i Ioan. Atebodd Iesu, "Petawn i am iddo aros yn fyw nes i mi ddod yn ôl, beth ydy hynny i ti? Dilyn di fi."



- 
- 11 Gwnaeth Iesu lawer o bethau eraill hefyd. Petai hanes pob un ohonyn nhw yn cael ei gadw, dw i ddim yn meddwl y byddai'r byd i gyd yn gallu dal yr holl lyfrau fyddai'n cael eu hysgrifennu!



- 
- 12 Cyfieithwyd gan [www.beibl.net](http://www.beibl.net)



[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

- 
- 13

